


Hybiau

Mae ganddom 'hybiau' wedi eu lleoli o amgylch Ynys Cybi lle mae posib llogi beic neu adael beic yr oeddech wedi ei logi



Gweler y map am leoliadau.

- 1 Parc Gwledig y Morglawdd**
Caffi'r Parc, Hen Dŷ'r Warden, Parc Gwledig y Morglawdd, Caergybi. LL65 1YG. Rhif ffôn: 01407 761317
Oriaau agor: 9-5 bob dydd
- 2 Gorsaf Drenau Caergybi**
Man gadael bagiau, Platform 2, Gorsaf Drenau Caergybi, Porthladd Caergybi. LL65 1DJ Rhif ffôn: 07794 680118
Oriaau agor: 9-5 bob dydd drwy'r flwyddyn
- 3 Blackthorn Farm (Fferm y Ddraenen Ddu)**
Penrhosfeiliw, Bae Trearddur, LL65 2LT
Rhif ffôn: 01407 765262 Symudol: 07760 460077
Oriaau agor: 9-5 bob dydd drwy'r flwyddyn
- 4 Anglesey Outdoors**
Lôn Porthdafarch, Caergybi. LL65 2LP
Rhif ffôn: 01407 769351
Oriaau agor: 9.30 -5 bob dydd
- 5 Anglesea Marine and Leisure**
Yr Iard Gychod, Lôn Isallt, Bae Trearddur. LL65 2UN
Rhif ffôn symudol: 07837 718739
Oriaau agor: 9 – 8 bob dydd, Mawrth – Medi
- 6 Outdoor Alternative**
Cerrig yr Adar, Rhoscolyn, Caergybi, Ynys Môn. LL65 2NQ
Rhif ffôn: 01407 860469
Oriaau agor: 9-5 bob dydd drwy'r flwyddyn



Archebwch Nawr

Mae'n hawdd iawn llogi beic, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni ar y ffôn.

Rhif ffôn: 07717 453806
Epost: info@cybibikes.co.uk
Y wefan: www.cybibikes.co.uk



Rydym hefyd ar
Facebook a Twitter




Parc Gwledig y Morglawdd



Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Beics Cybi

Mae Beics Cybi'n gwmni newydd sbon sydd yn llogi beics ar Ynys Cybi, Ynys Môn. Mae gennym hybiau mewn cyrchfannau twristiaid ar yr ynys gyda chyfleusterau llogi beics ar gyfer anghenion pawb.

Mae'n bosibl llogi beic er mwyn gweld Ynys Cybi a thu hwnt heb ruthro. Rydym wedi datblygu pedair o Deithiau Cylch Ffyrdd Gwyrdd i'ch helpu i wneud y gorau o Ynys Cybi ar gefn beic gan ddilyn y ffyrdd diogelaf posib. Edrychwch am logo Ffyrdd Gwyrdd ar arwyddion glas y llwybrau beicio.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth i helpu unrhyw gwsmeriaid sydd yn torri i lawr, felly ni fydd angen i chi boeni am ddim byd, dim ond eistedd, ymlacio a phedlo!



Traeth Porth Dafarch

Dewch i ddarganfod Ynys Cybi

Does dim llawer o fannau gwell nag Ynys Cybi ar drwyn gogledd orllewin Ynys Môn i gerdded, beicio neu i fwynhau'r awyr agored. Ar yr ynys hon, mae rhai o deithiau cerdded arfordirol mwyaf rhyfeddol Prydain a chewch fwynhau tirwedd naturiol, bywyd gwyllt a mannau hanesyddol.



Mwynhewch y beicio

Os cewch bynctsiar neu ryw drafferth arall gyda'r beic ar eich taith, ffoniwch ni ac fe fyddwn gyda chi cyn gynted a phosib. Os yw hi'n broblem y gellir ei datrys yn y fan a'r lle, fe wnawn hynny. Os na fydd hynny'n bosibl, fe ofalwn eich bod yn cael beic arall er mwyn i chi gael parhau ar eich taith mor fuan ag y bo modd.

Mae Beic Cybi'n fwy na dim ond beic – mae'n dawelwch meddwl.

"Aeth fy nheulu a minnau ar goll ac roedd rhaid i ni ffonio am help. O fewn 10 munud roedd cerbyd cymorth Beics Cybi wedi cyrraedd ac aeth â nî'n ôl i'n maes gweryslla. Roedd yn wasanaeth rhagorol a'r cyfan yn y pris."

Mr Millar, Leeds

Ein Beics

Mae gennym amrywiaeth o feics hybrid ar gyfer oedolion a phlant. Maent yn hyfryd i'w reidio ac yn ddiogel iawn. Mae gennym hefyd gerbydau i'w tynnu a seddi plant fel y gall y teulu cyfan ymuno yn y profiad.

Rydym yn credu mai dyma'r beics gorau y gallech eu llogi ac rydym yn falch iawn ohonynt!

Mae'r beics yn cael eu harchwilio'n fanwl cyn eu llogi. Rydym yn cadw cofnodion manwl o'r sylw a roddir i'r beiciau ac yn gofalu bod ein beiciau mewn cyflwr perffaith.

Mae pob cwsmer yn cael benthg helmed, siaced weladwy a chlo beic.



Prisiau

Beics Dynion a Merched

Diwrnod Llawn	£15
Hanner Diwrnod	£10
Dyddiau Ychwanegol	£10 y dydd

Beics Plant (5-12 oed)

Diwrnod Llawn	£10
Hanner Diwrnod	£7
Dyddiau Ychwanegol	£7 y dydd

Bwndel Teulu (2 feic oedolyn a 2 feic plentyn)

Diwrnod Llawn	£45
Hanner Diwrnod	£30
Dyddiau Ychwanegol	£30 y dydd

Beics Trydan

Diwrnod Llawn	£20
Hanner Diwrnod	£15
Dyddiau Ychwanegol	£15 y dydd

Cyfarpar Ychwanegol

Cerbyd i'w dynnu	£5 y dydd
Sedd Plentyn	£5 y dydd



Ynys Lawd

Mynydd Tŵr

Parc Gwledig y Morglawdd

CAERGYBI

BAE TREARDUR

RHOSCOLYN

Y FALI

Llwybrau Beic



- Taith Gylch Porth Dafarch - 9.8 milltir**
Taith hamddenol a hardd ar hyd gogledd Ynys Cybi.
1 awr – 9.8 milltir (15.8km)
- Taith Gylch Trearddur - 12 milltir**
Mwynhewch y golygfeydd bythgofiadwy o'r cilfachau bach ar hyd ffordd yr arfordir i Fae Trearddur.
1½ awr - 12 milltir (19.3 km)
- Taith Gylch Pontrhydybont - 16 milltir**
Mae'r daith hon yn mynd dros Bontrhydybont ac yn mynd â chi i dir mawr Ynys Môn.
2 awr – 16 milltir (26 km)
- Taith Gylch Rhoscolyn - 20.2 milltir**
Ewch cyn belled ag ardal hyfryd Rhoscolyn a'r traeth sydd bron o'r golwg yn nhroadau'r ffordd.
2½ awr - 20.2 milltir (32.5 km)

Mae Teithiau Cylch Trearddur a Phontrhydybont yn estyniadau o Daith Gylch Porth Dafarch. Mae Taith Gylch Rhoscolyn yn estyniad o Daith Gylch Pontrhydybont.

Allwedd

Hyb Beics Cybi

- | | |
|---------------|--------------------------|
| Ynys Lawd | Meini Hirion |
| Mynydd Tŵr | Siambr Gladdu |
| Bwyty | Coedwig |
| Siop | Man Caiacio |
| Pwll Hwyaidd | Cwrs Golff |
| Maes Pebyll | Canolfan RSPB |
| Ysbyty | Gorsaf yr Awyrlu, Y Fali |
| Gorsaf Drenau | Terfynfa Fferïau |
| Marina | Toiledau |



Traeth Rhoscolyn

Traeth Llydan